

Crynodeb yr Hwylusydd

Cynhyrchwyd y fideos hyn fel rhan o'r prosiect ***Stalking and Young People in Wales: Increasing Knowledge, Awareness and Understanding***.

Datblygwyd y fideos gyda myfyrwyr cyfryngau a ffilm ym Mhrifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd fel rhan o'u hasesiadau, felly roedd pobl ifanc eu hunain yn rhan o ddatblygu'r straeon a chynhyrchiad cyffredinol y fideos ym mhob cam.

Bwriad y cwestiynau yn y canllaw hwn yw llywio trafodaethau yn dilyn neu yn ystod gwyllo'r fideos er mwyn helpu pobl ifanc i siarad am ymddygiadau stelcio a deall yn well naws ymddygiadau stelcio. Gellir eu defnyddio mewn lleoliadau addysg, grwpiau ieuenctid, gan rieni/gofalwyr, a gan oedolion neu weithwyr cymorth dibynadwy eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am beth yw stelcio, sut mae'n wahanol i aflonyddu, a dolenni i adnoddau a gwybodaeth bellach yn ein [Canllaw i Weithwyr Proffesiynol](#).

Datblygwyd y cwestiynau hyn gan staff y prosiect ym Mhrifysgol De Cymru. Rhoddodd cydweithwyr o Wasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin adborth amhrisiadwy ar yr adnoddau hyn cyn eu lansio. Er iddynt gael eu profi'n sydyn, nid ydynt wedi cael eu gwerthuso'n drylwyr eto.

Gobeithiwn y byddwch yn gweld yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau am stelcio.

Os ydych chi wedi eu defnyddio, byddem yn croesawu unrhyw adborth.

Cysylltwch â sophia.kier-byfield@southwales.ac.uk

Stalkher

Mae **Stalkher** yn ffilm am fenyw ifanc o'r enw Alice sy'n dod yn obsesiynol gyda chyn-gariad ei chariad presennol, o'r enw Jasmine. Yn y fideo, gwelwn ei obsesiwn yn tyfu'n gryf iawn, gan gyrraedd pwynt lle mae hi'n mynd i'r caffi lle mae Jasmine yn gweithio.

Mae'r ymddygiadau yn y ffilm a ddangosir gan y prif gymeriad yn afiach ac yn peri pryder, ond fel y mae'n sefyll yn y ffilm, **nid ydynt yn gyfystyr â stelcio eto**. Er gwaethaf pryder ei chariad Oakley y gallai Alice fod yn "stelcio" Jasmine, a'r dybiaeth bosibl ymhlith gwylwyr ei bod hi'n ymddwyn fel stelciwr, neges bwysig i'w chyfleu trwy drafodaethau yw mai **dim ond pe bai'r ymddygiadau'n parhau ac yn gwaethgu y byddai'n gyfystyr â stelcio o bosibl**.

Mae'r fideo yn dangos ymddygiadau sy'n gyffredin ymhlith pobl ifanc, fel cymharu, cenfigen, a gwirio cyfryngau cymdeithasol dro ar ôl tro a allai arwain at rywbeth mwy difrifol.

Er enghraifft, pe bai Alice yn mynychu'r caffi eto, yn dechrau anfon negeseuon digroeso neu gamdriniol at Jasmine, yn dechrau ei dynwared hi'n fwy difrifol neu'n amlach, neu'n ymgymryd ag unrhyw ymddygiadau eraill a oedd yn gwneud i Jasmine deimlo'n ofidus ac yn ofnus, gallai'r sefyllfa fod yn gyfystyr â stelcio.

Mae'r fideo yn gorffen yn fwriadol gydag Alice yn ystafell ymolchi'r caffi ar y pwynt troi hwn lle gallai pethau waethgu neu newid.

Bwriad y fideo yw annog trafodaeth am yr hyn y mae pobl ifanc yn tueddu i'w alw'n "stelcio" – e.e. gwirio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol pobl eraill – a'r diffiniadau cyfreithiol o stelcio a ble gallai rhai o'r llinellau aneglur hynny fod.

Cwestiynau:

1. Pam ydych chi'n meddwl bod Alice yn dechrau teimlo mor obsesiynol am gyn-gariad ei chariad, Jasmine? Beth allai fod y rheswm dros y teimladau hyn?

Nodyn i'r hwylusydd: gellid egluro a thrafod y cysyniad o **genfigen ôl-weithredol**.

2. Pam ydych chi'n meddwl bod Alice yn dechrau dod mor obsesiynol am ei hymddangosiad ei hun?

Nodyn i'r hwylusydd: gallai hyn fod yn gyfle i drafod hunan-barch isel/**diwylliant cymharu** a rôl cyfryngau cymdeithasol.

3. Beth yw eich barn chi am ymateb ffrind Alice i'w ffocws ar Jasmine?

Nodyn i'r hwylusydd: gallai hwn fod yn gyfle i siarad am ei dull cymharu – sut arall y gallai fod wedi ymateb heb gymharu Alice â Jasmine ymhellach?

4. Beth yw eich barn chi am Oakley yn ceisio cael mynediad at ffôn ei gariad pan adawodd yr ystafell?

Proc: Ydy hi'n iawn i bartneriaid fynd ar ffonau ei gilydd? Ydy hyn yn rhywbeth sy'n arferol i chi neu bobl rydych chi'n eu hadnabod?

Nodyn i'r hwylusydd: mae'n bwysig nodi nad yw Oakley yn mynd i chwilio am rywbeth penodol yma – mae hynny oherwydd bod ei ffôn allan o fatri ac mae eisiau mynd ar ffôn wrth aros iddi ddod yn ôl. Serch hynny, gallai hyn fod yn bwnc trafod o hyd am ffiniau perthynas a thechnoleg.

5. Beth yw eich barn chi am ymateb Oakley i ddod o hyd i'w gyn-gariad yn y chwiliadau ar Instagram?

Nodyn i'r hwylusydd: dyma gyfle i drafod derbyn/peidio â beio/agor sgwrs. Mae ei ymagwedd dawel a di-feirniadol yn allweddol.

6. Pan fod Oakley'n dweud ei fod yn poeni amdani hi'n *stelcio* Jasmine, a oes unrhyw stelcio wir wedi digwydd?

Nodyn i'r hwylusydd: cyfle i drafod y gwahaniaeth rhwng chwilio ar-lein a gwirio a elwir yn achlysurol yn "stelcio" gan bobl ifanc a'r mathau o ymddygiadau y gellid eu dosbarthu fel stelcio.

7. Pam ydych chi'n meddwl bod obsesiwn Alice yn gwaethygu?

8. Pan mae Alice yn mynd i mewn i'r caffi, a yw stelcio wedi digwydd mewn gwirionedd?

Nodyn i'r hwylusydd: dyma gyfle arall i roi diffiniad a thrafod, os bydd hi'n stopio yma, y gellir mynd i'r afael â'r sefyllfa. Os bydd hi'n parhau, gallai arwain at stelcio, ond nid stelcio mohono eto. Mae hwn yn gyfle da i egluro defnydd bob dydd o'r term 'stelcio' yn erbyn diffiniadau cyfreithiol, achosi ofn/gofid, nifer y digwyddiadau sydd eu hangen, ac ati.

Sam ac Alex

Mae'r fideo **Sam ac Alex** yn ymwneud â chyfeillgarwch agos sy'n dirywio i ymddygiadau stelcio. Mae'r profiadau a bortreadir yn y fideo hwn yn bwysig i'w trafod gyda phobl ifanc oherwydd gall stelcio ddigwydd y tu allan i berthnasoedd a chyd-destunau rhamantus.

Mae'r fideo hefyd yn darparu pwnc trafod ar gyfer normaleiddio apiau olrhain a rhannu lleoliad a sut y gall hyn ddod yn beryglus, defnyddio cyfrifon ffug ac ymddygiadau ar-lein, a phwysigrwydd mudo yn hytrach na blocio cyfathrebiadau digroeso a siarad â rhywun.

Cwestiynau:

1. Ydych chi a'ch ffrindiau/teulu yn gwneud unrhyw beth gyda thechnoleg i gadw'ch gilydd yn ddiogel neu i deimlo'n fwy diogel?
2. Ydych chi erioed wedi defnyddio ap olrhain neu leoliad? Pam ydych chi'n eu defnyddio a gyda phwy? Os na, pam ddim?
3. Pam mae'r apiau hyn yn gynyddol gyffredin?
 - a. Beth yw'r buddion?
 - b. Allwch chi feddwl am unrhyw risgiau?
 - c. Beth allai fod y llinell rhwng defnydd iach ac afiach o apiau o'r fath?
4. Beth yw eich barn chi am ymddygiad Sam tuag at Alex?
5. Beth allai fod y rhesymau dros ymddygiad Sam tuag at Alex?
6. Pam ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod Alex yn mudo'r cyfrif yn hytrach na'i rwystro pan fydd pryderon yn dechrau codi?
7. (Ar yr adeg pan mae Alex yn dechrau ymchwilio i'r ymddygiadau) – Ydych chi'n credu bod yr ymddygiad hwn yn aflonyddu neu'n stelcio?

Nodyn i'r hwylusydd: cyfle i esbonio ei fod o bosibl yn stelcio oherwydd yr ymddygiadau ailadroddus, y obsesiwn a'r effaith ar Alex.

8. Beth fydddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa hon?

Nodyn i'r hwylusydd: cyfle i esbonio pwysigrwydd siarad ag oedolyn, ffrind neu wasanaeth.

9. Os oeddech chi yn y math hwn o sefyllfa neu'n adnabod rhywun sy'n mynd trwy rywbeth tebyg, a oes unrhyw beth a fyddai'n eich atal rhag cael cymorth?